

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 2 Tachwedd 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 30 Hydref 2015. Mae fy ymatebion i bob un o'ch cwestiynau wedi'u nodi mewn print trwm isod.

Byddwch, wrth gwrs, yn ymwybodol o'r cynnig i ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru.

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a fyddech cystal â rhoi gwybod i mi:

1 Beth fydd cost ddisgwyliedig yr ad-drefnu? Beth fydd y gost o ran tâl dileu swydd/tâl diswyddo? A faint o ran Pensiynau ychwanegol?

Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sawl cynnig ar hyn o bryd. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi cyflwyno ffigurau sy'n ymdrin ag ad-drefnu yn gyffredinol, ond nid ydynt yn benodol i unrhyw fodel penodol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pa fodel y mae'n bwriadu ei ddefnyddio hyd yn hyn. Nid oes gennym, felly, wybodaeth gofnodedig sy'n cyfateb i'r disgrifiad yn eich cais.

2 A oes dadansoddiad o gostau a buddion wedi ei gynnal? Os oes, a fyddech cystal â darparu copi i mi?

Nid yw'r wybodaeth hon gennym ni. Efallai y byddwch yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru.

3 Pa ymateb a roddwyd gennych i'r Gweinidogion priodol ynglŷn ag ad-drefnu? Darparwch gopiâu os gwelwch yn dda.

Ymatebodd yr Archwilydd Cyffredinol i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Llywodraeth Leol". Mae ymateb yr Archwilydd Cyffredinol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru trwy ddilyn y ddolen hon <http://gov.wales/docs/dpsp/consultation/141208wp-responses-h-l.pdf>

Ymatebodd yr Archwilydd Cyffredinol i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol" <http://gov.wales/docs/dsjlg/consultation/150203-power-to-local-people-fullv2-en.pdf> Gweler yr ymateb a atodwyd.

4 Pa dystiolaeth sydd gennych y bydd yr ad-drefnu yn fanteisiol? Darparwch gopiâu os gwelwch yn dda.

Nid yw'r wybodaeth gennym.

Nodaf eich bod wedi adrodd ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Byddwch yn cofio y crëwyd y Bwrdd hwn yn sgil ad-drefnu Llywodraeth Cymru.

Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a fyddech cystal â rhoi gwybod i mi:

1 Beth yw cost yr ad-drefnu hyd yn hyn? Beth fydd y gost o ran tâl dileu swydd/tâl diswyddo? A faint o ran Pensiynau ychwanegol?

Nid yw'r wybodaeth gennym.

2 *A gynhaliwyd dadansoddiad o gostau a manteision? Os felly, a fyddech cystal â darparu copi i mi.*

Nid yw'r wybodaeth hon gennym ni. Efallai y byddwch yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei hun.

3 *Pa ymateb a roddwyd gennych i'r Gweinidogion priodol ynglŷn ag ad-drefnu? Darparwch gopiâu os gwelwch yn dda.*

Nid yw'r wybodaeth gennym.

4 *Pa dystiolaeth oedd gennych y byddai ad-drefnu yn fanteisiol? Darparwch gopiâu os s gwelwch yn dda..*

Nid yw'r wybodaeth gennym.

A ydych chi'n cytuno â'r canlynol: Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn destun mesurau arbennig, mae ysbryd y staff yr isaf y bu erioed, ni ellir recriwtio staff, mae staff presennol yn gadael, mae staff yn treulio llawer o amser yn teithio i gyfarfodydd rhwng Ysbytai, nid yw'r systemau TG yn y gwahanol Ysbytai yn cydweddu â'i gilydd, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn wael, caiff gormod o amser ei dreulio yn ad-drefnu'r strwythur a materion personél, ac nid oes digon o amser yn cael ei dreulio yn gofalu am gleifion.

Nid yw'r wybodaeth gennym (nodwch nad oes ymrwymiad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i greu gwybodaeth nad yw gennym er mwyn ymateb i geisiadau). Efallai bydd diddordeb gennych yn y llythyr a luniwyd ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a anfonwyd at Brif Weithredwr dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 12 Hydref 2015 <<http://www.audit.wales/publication/betsi-cadwaladr-university-health-board-letter-interim-chief-executive>>

Nid wyf wedi cymhwyso unrhyw esemptiadau, ond os hoffech gwyno ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips